


# Comin Gelligaer — rhyfeddod archeolegol

Frank Olding, swyddog treftadaeth Cyngor  
Bwrdeistref Blaenau Gwent, sy'n ein tywys  
ar daith gerdded fer o galon y Gymru  
ddiwydiannol i dirwedd archeolegol hynod ...

*Y maen o ddiwedd y chweched  
ganrif, neu ddechrau'r seithfed,  
(2) a oedd ar un adeg yn dwyn  
arysgrif i gofio Nia-Froich —  
‘pencampwr y grug’*

© Hawlfraint y Goron (2010) Croeso Cymru



Y daith

Wedi ei atgynhyrchu gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran HMSO. © Hawlfraint y Goron 2010. Pob hawl wedi'u gadw. Rhif trwydded Arolwg Ordnans 100021874

Ehangder o rostir uchel anial ond prydferth wedi ei wasgu rhwng cymoedd Taf a Rhymni yw Comin Gelligaer. Mae ei bryniau geirwon o fewn tafliad carreg i'r cymunedau sydd a'u henwau'n un â hanes diwydiannol de Cymru, gan gynnwys Glynebwy, cartref yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Ond mae hon

hefyd yn un o'r tirweddau archeolegol mwyaf nodedig yng Nghymru. Ddylai'r daith fer hon ddim cymryd mwy na dwy awr, ond mae'n cynnig microcosm o archeoleg Cymoedd de Cymru cyn y Chwyldro Diwydiannol.

Mae taith car rhyw ddeng munud o'r A465/ Ffordd Blaenau'r Cymoedd yn eich arwain at

y maes parcio bychan ar y ffordd fynyddig o Fochriw i Fedd Llwynog (SO 105031) a dyma yw ein man cychwyn. Cerddwch yn ôl tuag at y ffordd sy'n rhedeg i'r de o Fochriw tuag at Gelligaer. I'r gogledd o'r gyffordd rhwng y ddwy ffordd (SO 106032) y mae cylchgam ysblennydd (1) sy'n dyddio'n ôl i'r Oes Efydd

© Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru AP\_2008\_3149

## Cyn i chi ddechrau

**Pellter:** Tua 2 filltir (3.2 km)

**Amser:** 2 awr

**Map:** OS Explorer 166 Rhondda a Merthyr Tudful

**Man cychwyn/Parcio:** Maes parcio ar y ffordd fynyddig o Fochriw i Fedd Llwynog (SO 105031)

**Tref agosaf:** Fochriw

**Tirwedd:** Rhostir agored. Mae yna waith dringo cymhedrol ac mae'r ddaear yn arw. Gan fod y daith gerdded ar dir comin, dyw llawer ohoni ddim yn dilyn llwybrau clir.

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi gwisgo esgidiau cryfion a dillad addas cyn i chi gychwyn ar eich taith. Efallai y byddai cwmpawd yn ddefnyddiol ar gyfer nodi cyfeiriadau cyffredinol wrth gerdded rhwng y safleoedd unigol.



Golwg o'r awyr o Ben Carnbugail o'r gogledd-orllewin — Carn Bugail (4) yw'r twmpath amlwg i'r dde o'r canol



*Y ffordd Rufeinig (3) sy'n mynd hyd ochr ddwyreiniol Pen Carnbugail gan gysylltu'r ceiri yng Ngelligaer a Phenydarren; cafodd y ffosydd o boptu eu tywyllu er mwyn eu dangos yn well*

© Amgueddfa Cymru



*Model o'r gaer Rufeinig yng Ngelligaer fel y gallai fod wedi edrych yn nechrau'r ail ganrif OC*

*Gynnar (2000-1450 CC).*

Cylch o glawdd glaswelltog yw'r safle, tua 49 troedfedd (15m) ar draws. Amrywiad ar y syniad o gylch cerrig yw'r cylchgarnau ac mae'n siŵr mai tebyg oedd eu pwrpas. Yn sicr, roedd ganddyn nhw swyddogaethau crefyddol a defodol ac roedden nhw'n cael eu defnyddio'n aml yn gladdfeydd teuluol ar gyfer ffermwyr a bugeiliaid yr Oes Efydd, a'r rheiny'n treulio'u hafau ar y bryniau hyn.

*Cerddwch i'r gogledd-orllewin hyd nes i chi gyrraedd colofn denau o garreg (2) ochr yn ochr â llain eang o laswellt byr (SO 103034).*

Dyma garreg goffa sy'n dyddio'n ôl i ddiwedd y chweched neu ddechrau'r seithfed ganrif OC. Ar y wyneb gogleddol, roedd arysgrif yn arfer dweud NEFROIHI — 'carreg Nía-Froích'. Mae'n cofáu rhyfelwr Gwyddelig oedd â'i enw'n golygu rhywbeth fel 'pencampwr y grug' ac mae'n ein hatgoffa bod teyrnasoedd Gwyddelig yn ne Cymru yn ystod yr Oesoedd Tywyll.

Gan ymgartrefu'n gyntaf yn Sir Benfro yn y bumed ganrif, fe ehangodd y Gwyddelod yn fuan iawn wedi hynny gan ymsefydlu yn eu teyrnas ym Mrycheiniog. Mae'n bosib bod y garreg hon ac un arall yn yr Ystrad rhwng Trefil a Phontsticill i'r gogledd yn nodi ffin ddeheuol eu dylanwad.

*Trwy droi i'r gorllewin a cherdded tua 30 llath (30m), byddwch yn croesi'r ffordd Rufeinig (3) sy'n cysylltu'r caeru yn Gelligaer a Phenydarren.*

Ar y pwynt hwn, mae'r ffordd yn gyffredinol tua 39 troedfedd (12m) o led. Mae'n mynd am fwy na hanner milltir (bron i 1 km) o ffordd Bedd Llwynog, gan ddringo'n raddol nes dod i ben ar lethrau gogleddol Pen Carnbugail. Drwy edrych i fyny i'r bryn i'r gogledd, byddwch yn gweld cynllun clasur o ffordd Rufeinig — rhan ganolog wedi ei chodi, a elwir yn 'agger' gan archeolegwyr, gyda ffos a chlawdd allanol ar y naill ochr a'r llall iddi. Dyma ran o'r ffordd Rufeinig oedd

## Pan ddaeth Arthur i Gelligaer

Roedd y carneddau ym Mochriw wedi cydio yn nychymyg ein hynafiaid canoloesol ac fe gawson nhw eu tynnu i mewn i'r chwedlau Arthuraidd. Rywbryd yn y 1070au neu'r 1080au,

ysgrifennodd mynach o Lancarfan ym Morgannwg o'r enw Lifris 'gofiant' Lladin i Sant Cadog, y *Vita Cadoci*, ac ymhlith y chwedlau am y sant yr oedd hanes ei enedigaeth.

Roedd brenin Gwenhwyseg lleol o'r enw Gwynllyw — dyna fôn yr enw Gwynllŵg (y rhan orllewinol o Gwent) — wedi dianc gyda Gwladys ferch Brychan, brenin Brycheiniog. Aeth Brychan, a oedd yn naturiol ddog gyda'r ymddygiad

afreolus yma, ar ei ôl gyda'i filwyr. Pan oedd bron â dal y cwpwl, daeth Gwynllyw a Gwladys i fryn a enwir Boch Rhiw Carn gan gwrdd ag Arthur a'i gyfeillion Ilon, Cai a Bedwyr; yn chwarae dis! Mewn chwedlau diweddarach yn Ffrangeg a Saesneg, cafodd yr arwyr gwaed coch Celtaidd yma eu trawsnewid yn Syr Cai sarrug a Syr Bedwyr ddiflas.

Llwyddodd y 'tri arwr egniol' (*tres heroes strenui*) i drechu

Brychan a'i ddynion mewn brwydr waedlyd, ond nid cyn i Arthur ystyried herwgipio Gwladys ei hun! Aeth y cwpwl hapus ar eu hynt, a chanlyniad eu brwdfrydedd ar ôl priodi oedd Sant Cadog ei hun. Mae Boch Rhiw Carn ('carn Mochriw') yn amlwg yn gyfeiriad at Garn Bugail.

Felly, dyna Arthur, Cai a Bedwyr yn ymladd brwydr ar y mynydd llwm uwchben Rhymni — o leiaf yn nychymyg bywiog



*Y wobwr am ddringo at Garn Bugail (4) yw golygfa wych tros y wlad o amgylch*

yn wreiddiol yn rhedeg yr holl ffordd o Aberhonddu i Gaerdydd, gan gysylltu'r caerau yn Mhenydarren, Gelligaer a Chaerffili. Mae caer Gelligaer tua 4 milltir (7km) i'r de (ST 134971) a gellir ei chyrraedd drwy ddilyn y ffordd fodern hyd y grib.

Cafodd y ffordd a'r caerau fel ei gilydd eu hadeiladu gan Julius Frontinus, llywodraethwr Prydain a oedd yn gyfrifol am oresgyn Cymru, rhwng o.c 74 ac o.c 78. Cafodd y gaer yn Gelligaer ei hailadeiladu o garreg rhwng tua o.c 103 ac o.c 111 ac fe fyddai wedi rhoi cartref i tua 500 o filwyr Rhufeinig.

Yn ystod eu hymgyrchoedd, yn aml byddai'n rhaid i'r fyddin Rufeinig adeiladu 'gweryslyoedd gorymdeithio' — caerau dros dro oedd yn rhoi canolfannau diogel mewn tiriogaeth elyniaethus. Ar hyd y ffordd o Waun Gelligaer i'r gaer mae yna gyfres o 'werslyoedd ymarfer' — caerau bychain wedi eu hadeiladu gan filwyr garsiwn Gelligaer yn ymarferion hyfforddi i'w paratoi ar gyfer y profiad go iawn.

*Dilynwch y ffordd Rufeinig i'r gogledd am tua*

325 llath (300m) nes ei bod yn cwrdd â thrac sy'n dod o'r chwith. Ar y pwynt hwn, trowch i'r chwith a cherdded i'r gorllewin yn syth i fyny'r bryn nes i chi weld amlinelliad y pwynt trig ar gopa Pen Cambugail (SO 101037). Ewch at y pwynt trig er mwyn dod at un o'r safleoedd Oes Efydd mwyaf ysblennydd yn ne Cymru.

Rydych yn awr yn sefyll ar garn gladdu Carn Bugail (4). Dyma dwmpath gwastad o gerrig tua 50 troedfedd (15m) mewn diamedr a 3 troedfedd (1m) o uchder, gydag ymyl o gerrig enfawr. Yn y canol mae cist garreg fawr gyda maen capan hirgrwn sylweddol sydd wedi cael ei symud i un ochr er mwyn ysbeilio o'r gist rhyw 300 mlynedd yn ôl. Dyma'r gist lle'r oedd olion y person a gladdwyd yn y garn. Pan gafodd ei chloddio, darganfuwyd gweddillion yrnau ac esgyrn wedi eu llosgi.

Mae'r safle hwn hefyd yn perthyn i'r Oes Efydd Gynnar (2000-1450 cc). I ddechrau, roedd pobl yr Oes Efydd yn claddu eu meirw gydag ychydig offrymau i fynd gyda nhw i'r byd arall — bicer, offer fflint ac, o bosib, dagr



*Yn wreiddiol, byddai'r cerrig sy'n gorwedd o amgylch y carn crwn (5) yma wedi bod ar eu traed*

efydd neu gopr. Yn ddiweddarach, o tua 1700 cc, fe ddechreuson nhw losgi eu meirw a chladdu eu llwch a'u hesgyrn mewn yrnau crochenwaith. Mae'n bosib bod Carn Bugail yn deillio o'r cyfnod hwn. I gyfeiriad y gogledd mae carn arall, lai — unwaith eto gyda chist fawr a maen capan yn y canol. Mae Carn Bugail yn gysylltiedig â stori am Arthur a dau o'i farchogion, tywysoges o'r enw Gwladys a sant o'r enw Cadog!

*Wrth gerdded i'r de-orllewin o Garn Bugail*



*Capel Gwladys*

clerigwr o'r unfed ganrif ar ddeg! Gallwch ddod o hyd i gyfeiriad pellach at y stori yng Nghapel Gwladys, tua 3 milltir (4.5km) ar hyd y ffordd Rufeinig a thua 1 milltir (1.5km) o Fargoed (ST 125993).

Yma, mewn clawdd ffin trawiadol, gallwch weld bod sylfeini capel bach hirsgwar wedi eu hadnewyddu gyda chroes fodern wedi ei cherfio i nodi safle'r allor. Yn ôl traddodiad, cafodd y capel ei sefydlu gan

Gwladys yn y chweched ganrif, ond canoloesol yw'r gweddillion yma. Gallwch weld maen bedd cerffiedig a ddarganfuwyd yma sy'n deillio o'r wythfed neu'r nawfed ganrif yng nghyntedd eglwys Gelligaer.

Ar rostir agored Fforest Gwladys tua hanner cilomedr i'r de-ddwyrain o Gapel Gwladys y mae un o'r gweryslyoedd ymarfer Rhufeinig gorau o ran cyflwr a hygyrchedd (ST 131991).



*Y mwyaf o'r ddau lwyfan (7) sy'n rhan o hen dreflan o ddiwedd y canol oesoedd o'r enw Dinas Noddfa; dyma safle tŷ gyda waliau o gerrig a thyweirch*

byddwch yn cyrraedd ymyl y grib gan edrych i lawr dros flaenau dyffryn bas. Ewch i lawr y llethr at glawdd siâp pedol (5) tua 36 troedfedd (11m) ar draws gyda cherrig mawr yn ymwithio ohono (SO 099034).

Yn wreiddiol, byddai'r cerrig yma wedi sefyll yn unionsyth gan ffurfio cylch trawiadol — dyma gylchgarn arall sydd unwaith eto'n deillio o'r Oes Efydd Gynnar:

*Dringwch y grib isel sy'n codi i'r de-orllewin o'r gylchgarn ac ar y copa fe welwch gam gladdu arall o'r Oes Efydd sydd mewn cyflwr da (6) a thua 20 troedfedd (6m) ar draws gyda chist ganolog fawr a maen capan enfawr (SO 098033). O'r cam yma, cerddwch i'r gorllewin unwaith eto tuag at ymyl y grib.*

Rydych yn awr yn edrych i lawr at lwyfandir gwastad gyda wal gerrig sych gadarn hyd ei ymyl. Yn yr haf, mae hwn yn gartref i gnwd o ysgall sy'n tyfu at eich gwddw!

*Cerddwch i lawr y grib ac anelu tua'r gorllewin drwy'r cae ysgall am tua 500 llath (0.5km). Byddwch yn cyrraedd anheddiad canoloesol anghyfnedd o'r enw Dinas Noddfa (SO 094032).*

Wrth i chi gerdded ar draws y llwyfandir, byddwch yn sylwi ar nifer o bentyrarau o gerrig â thyweirch drostynt — dyma gasgliad o garneddau clirio; a ffurfiwyd drwy'r glirio cerrig er mwyn amaethu'r tir o'u cwmpas. Sylwch hefyd ar gloddiau isel hir oedd

unwaith yn ffiniau i gaeau hynafol.

*Wrth ddilyn y mwyaf gogleddol o'r cloddiau hyn cewch eich arwain at ymyl eithaf y llwyfandir gyda chwymp go serth oddi tano. Yma fe welwch ddau lwyfan gwastad wedi eu torri i mewn i lethr y bryn (7).*

Roedd y llwyfannau yma unwaith yn cynnal adeiladau canoloesol ac fe gawson nhw eu cloddio yn yr 1930au gan yr archeolegydd enwog Lady Aileen Fox. Mae'r llwyfan mwyaf ac isaf yn mesur rhyw 65 troedfedd (20m) wrth 33 troedfedd (10m) ac roedd unwaith yn dal tŷ, gydag waliau cerrig a thyweirch a tho crib. Ar ganol yr ochrau hir yr oedd mynedfa gyda phorth.

Mae'r llwyfan uchaf yn llai — (tua 50 troedfedd (15m) wrth 26 troedfedd (8m) — ac roedd yn gartref i adeilad llai mawreddog gydag waliau tyweirch a dim ond un fynedfa. Roedd Dinas Noddfa yn ôl pob tebyg yn cael ei defnyddio yn ystod y drydedd a'r bedwaredd ganrif ar ddeg gan fugeiliaid Cymreig lleol oedd yn crafu bywoliaeth ar dir gwael.

*O Ddinas Noddfa, anelwch yn fras tua'r de-ddwyrain nes cyrraedd ffordd Bedd Llwynog. Dilynwch y ffordd tua'r dwyrain yn ôl at y maes parcio. Wrth ddod at frig o graig ar ochr chwith y ffordd, efallai y byddwch yn sylwi ar gam gladdu gynhanesyddol fach (8) yn agos at lwybr sy'n ymuno â'r ffordd o'r chwith (SO 098031).*

Rhyw 16 troedfedd (5m) ar draws yw hwn a heb fod hanner mor drawiadol â Charn Bugail, ond mae'n dangos yr amrywiaeth enfawr ym maint henebion yr Oes Efydd.

*Rhyw 900 llathen (820m) ar hyd y ffordd hon byddwch yn cyrraedd yn ôl yn y maes parcio a man cychwyn y llwybr. 📍*

## Etifeddiaeth y dysgwyr

### Comin Gelligaer — yn llawn trysorau

Mae'r Cymoedd yn enwog am byllau glo, haearn a dur.

Mae Glynebwy yn enwog am ei waith dur.

Ond uwchben y Cymoedd, mae byd arall.

Mae Comin Gelligaer, er enghraifft, yn lle hynod.

Mae'r tir agored yma yn llawn trysorau sy'n mynd yn ôl filoedd o flynyddoedd.

Dyma rai o'r pethau sydd yno:

Sawl cam — cylchoedd crwn o gerrig lle'r oedd pobl yn cael eu claddu.

Maen hir — i gofio milwr o lwerddon.

Capel Gwladys — olion capel gyda stori sy'n cynnwys y Brenin Arthur!

Olion hen dreflan o'r canoloesoedd

Ffordd Rufeinig a chaer ... dyna'r gaer yn yr enw Gelligaer

Gwersylloedd bach Rhufeinig — ble'r oedden nhw'n ymarfer.

yn llawn trysorau =  
full of treasures  
yn enwog = is famous  
byd arall =  
another world  
hynod = remarkable  
sawl = several  
claddu = to bury  
maen hir =  
standing stone  
olion = remains  
treflan = settlement  
ble'r oedden nhw =  
where they used to